Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Mesurau'r Farchnad, Hysbysiadau a Thaliadau Uniongyrchol) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**16 Hydref 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Mesurau'r Farchnad, Hysbysiadau a Thaliadau Uniongyrchol) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy a ddiwygir gan Reoliadau 2019

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/891 dyddiedig 13 Mawrth 2017 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu ac sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y cosbau i'w cymhwyso yn y sectorau hynny;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/892 dyddiedig 13 Mawrth 2017 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1185 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 a (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran hysbysu'r Comisiwn am wybodaeth a dogfennau.

Offerynnau domestig sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a ddiwygir gan Reoliadau 2019

- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio darpariaethau deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ("UE") sy'n ymwneud â Pholisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC") yr UE. Bydd y

ddeddfwriaeth yn cael ei dargadw ar ôl i'r Deyrnas Unedig ("y DU") ymadael â'r UE mewn senario dim cytundeb, ac felly mae'r offerynnau hyn yn gwneud diwygiadau i sicrhau bod y darpariaethau yn dal i weithio ar ôl ymadael â'r UE. Mae un rheoliad domestig sy'n ymwneud â rhan o ddeddfwriaeth PAC yr UE a ddargedwir wedi'i ddiwygio ymhellach gan yr offerynnau hyn.

Mae Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Sefydliadau Cynhyrchwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn diwygio darpariaethau a ddargedwir sy'n ymwneud â'r PAC o'r enw Cyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd Amaethyddol ("CMA").

Mae Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Mesurau'r Farchnad a Hysbysiadau) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn diwygio darpariaethau CMA datganoledig ac yn gwneud diwygiadau pellach i gyfraith ddomestig sy'n ymwneud â'r mecanwaith disgyblaeth ariannol.

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/ho90Co5B

Effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae Rheoliadau 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol fel eu bod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn ddilyffethair.

Nid ydynt yn trosglwyddo swyddogaethau deddfwriaethol.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Nid yw Rheoliadau 2019 yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Bydd Rheoliadau 2019 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer achosion brys a nodir ym mharagraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Yn unol â'r weithdrefn hon, gellir gwneud Rheoliadau 2019 heb fod offeryn drafft yn cael ei gosod gerbron, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad, bob Tŷ'r Cyffredin ar yr amod bod y Gweinidog perthnasol yn datgan ei bod yn angenrheidiol gwneud y rheoliadau heb fod drafft yn cael ei osod na'i gymeradwyo oherwydd brys.